Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Lauren Ryland**

**Llanfair-ym-Muallt**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Manual insert]<br><br>28 Mehefin 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Manual insert]<br>No |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ac ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried themâu llesiant, gofal a datblygiad, yr amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn

Mae'r plant yn hapus, yn hyderus ac wedi setlo yn y gwasanaeth hwn. Maent yn cael cyfleoedd da iawn i wneud dewisiadau a chaiff eu penderfyniadau, eu diddordebau a'u barn eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac maent yn annibynnol yn nhrefn y dydd. Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr yn garedig yn gyson ac yn deall polisïau, gweithdrefnau a chyfrifoldebau unigol y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gynnes ac mae'n cynnig amrywiaeth o adnoddau sy'n cynnig cyfleoedd chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn bodloni'r holl ofynion diogelwch a rheoleiddiol.

Mae'r gwarchodwr plant yn mynd ati'n rhagweithiol i wneud gwelliannau i'r gwasanaeth, mae'n cydymffurfio â'r rheoliadau, yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn cynnal asesiadau risg pwrpasol.

## Llesiant

Mae'r plant yn teimlo'n hyderus i gyfleu eu dymuniadau a chaiff eu hanghenion eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da iawn i wneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu barn a'u diddordebau eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, gwelsom blant yn cael cyfle i ddewis llyfrau o rac llyfrau, i chwarae ar y si-so, ac i archwilio yn y gornel gartref. Gwelsom blentyn dieiriau yn pwyntio at flwch o adnoddau a chlywsom y cynorthwywyr yn dweud yn dawel, '*would you like to play with the blocks?'* Clywsom blentyn yn gofyn i'r gwarchodwr plant a fyddai'n gallu cael cerddoriaeth ar y teledu, a dechreuodd neidio i fyny ac i lawr yn llawn cyffro pan ymatebodd y gwarchodwr plant.

Mae'r plant wedi setlo, ac maent yn gyfforddus ac yn hapus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, gwelsom blant yn cyrraedd y gwasanaeth ar adegau gwahanol, gan ymgysylltu â'u cyfoedion yn frwdfrydig a mynd ati'n gyflym i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Dros ginio, roedd un plentyn yn awyddus i ddweud wrthym am drefn y dydd. Aeth ymlaen i esbonio bod y gwarchodwr plant yn mynd â nhw i'r Cylch Meithrin ar ôl cinio, ac yna'n eu casglu a dod â nhw'n ôl unwaith eto.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson dda. Mae'r plant yn ymgysylltu’n dda â'u cyfoedion, gan ddangos diddordeb yn anghenion ei gilydd a chefnogi ei gilydd. Er enghraifft, gwelsom un plentyn yn helpu plant iau drwy ofyn iddynt i ddechau beth yr hoffent fod, ac yna'n eu helpu i wisgo'r masgiau anifeiliaid a ddewiswyd ganddynt.

Mae'r plant yn ymroi i drefn y dydd ac yn cymryd rhan weithgar ynddi. Maent yn dangos brwdfrydedd wrth chwarae a dysgu. Er enghraifft, gwelsom y plant yn mwynhau gweithgaredd yn seiliedig ar y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Roedd yn amlwg bod y plant yn mwynhau canu a dawnsio i gerddoriaeth â thema a gwelsom y plant yn gorymdeithio o amgylch yr ystafell i seiniau'r jyngl. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent wedi meithrin cydberthnasau gyda'u cyfoedion a gyda'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd ac maent yn cael dewis ac archwilio.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr yn deall polisïau a gweithdrefnau'r gwarchodwr plant i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant, ac yn eu rhoi ar waith. Caiff arferion glanhau a hylendid cadarn eu rhoi ar waith. Er enghraifft, gwelsom fyrddau a chadeiriau uchel yn cael eu diheintio cyn ac ar ôl pob gweithgaredd bwrdd a chyn ac ar ôl cinio. Anogir y plant i ddeall pwysigrwydd golchi eu dwylo ar ôl gweithgareddau, ar ôl defnyddio'r toiled a chyn eu cinio. Mae'r plant yn mwynhau cael annibyniaeth wrth helpu eu hunain i sgwariau tywelion bach i olchi eu dwylo a'u hwynebau. Caiff y rhain eu storio mewn bag sydd wedi'i hongian yn isel wrth y sinc golchi dwylo yn ardal y toiled ac yn syth ar ôl iddynt gael eu defnyddio unwaith, cânt eu rhoi mewn basged olchi. Caiff trwynau'r plant eu sychu mewn ffordd garedig gan ddangos parch, a gan sicrhau y caiff dwylo eu golchi yn syth wedyn. Mae gweithdrefn gadarn ar waith i newid cewynnau, a chaiff pob newid ei ddogfennu. Ceir dealltwriaeth o'r gweithdrefnau diogelu ac mae'r hyfforddiant yn gyfredol.

Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant, y cynorthwywyr a'r plant yn gyson, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant ac maent yn ymateb i lefel y cymorth sydd ei hangen ar gyfer datblygiad unigol. Gwelsom fod y gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hanghenion a'u galluoedd unigol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'n gartrefol, yn groesawgar ac yn gynnes ac mae'n cynnig amrywiaeth o adnoddau sy'n cynnig cyfleoedd chwarae mewn ystafell sydd wedi'i chynllunio'n bwrpasol. Mae'r brif ystafell yn cynnig gofod agored sy'n galluogi'r plant i gael gafael ar yr adnoddau ac yn rhoi digon o le iddynt symud o gwmpas yn rhydd a chwarae. Mae'r defnydd o ardaloedd ychwanegol yn y gwasanaeth yn dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth a diogelwch. Er enghraifft, gwelsom fod pob agwedd ar ddiogelwch wedi'i hystyried a'i rhoi ar waith yn yr ystafell ymolchi a'r ardal fyw.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddiol ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'n sicrhau bod pob agwedd ar y gwaith papur wedi'i chyflawni a'i chwblhau'n gywir. Er enghraifft, gwelsom fod ffeiliau'r staff, asesiadau risg a chofrestrau yn cael eu cynnal yn drefnus ac yn effeithiol, gan sicrhau diogelwch y plant a'r cynorthwywyr.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i welliant parhaus. Mae wedi meithrin partneriaethau cryf â'r rhieni a'r ysgolion. Er enghraifft, gwelsom fod y plant yn cael eu cludo i'r ysgol ac oddi yno yn ddiogel, gan gynnal cymarebau staff/plant. Dywedodd cynorthwywyr y gwarchodwr plant wrthym eu bod yn hapus ac yn mwynhau gweithio fel tîm yn y gwasanaeth hwn.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Ni cheir unrhyw argymhellion.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 28 | Gwelsom fod ffeiliau'r staff yn anghyflawn. Rhaid i'r darparwr gael yr holl wybodaeth recriwtio cyn cyflogi er mwyn sicrhau bod y staff yn addas. | Cyflawnwyd |
| 30 | Cofnodion presenoldeb anghyflawn. Rhaid i'r darparwr gofnodi amseroedd presenoldeb y plant a'r staff. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 31 | Nid oedd wedi hysbysu AGC am newidiadau i'r staff. Rhaid i'r darparwr hysbysu AGC am newidiadau perthnasol fel y nodir yn y rheoliadau. | Cyflawnwyd |
| 20 | Nid oedd wedi cael tystysgrifau gwiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl gynorthwywyr cyn eu cyflogi, ond cafodd hyn ei unioni ar unwaith.  Rhaid i'r darparwr sicrhau bod gan bob cynorthwyydd dystysgrif gwiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn eu cyflogi. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/03/2023